

Meini prawf ar gyfer darparwyr addysg a chofrestreion
Criteria for education providers and registrants

Approval criteria for approved mental health
professional (AMHP) programmes

Meini prawf cymeradwyo ar gyfer rhaglenni
proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy (AMHP) prog

Cynnwys

Rhagair

Cyflwyniad

Adran 1: Darparwyr addysg

**Adran 2: Gweithwyr proffesiynol
iechyd meddwl cymeradwy**

Contents

Foreword

Introduction

Section 1: Education providers

**Section 2: Approved mental health
professionals**

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno meini prawf y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) ar gyfer rhaglenni proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy (AMHP).

Mae gan yr HCPC bwerau i gymeradwyo a monitro rhaglenni ar gyfer AMHPs yn Lloegr ac i wneud hyn, rydym wedi cynhyrchu meini prawf sy'n cyflwyno ein disgwyliadau o ddarparwyr addysg ac unigolion sy'n cwblhau'r rhaglenni hyn.

Mae'r meini prawf ar gyfer cymeradwyo rhaglenni AMHP wedi'u dylunio i roi'r sgiliau trothwy sydd eu hangen i ymgymryd ag ymarfer AMHP diogel ac effeithiol i unigolion. Maen nhw'n cyflwyno'r prosesau a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i ddarparwyr addysg sy'n cyflawni hyfforddiant AMHP eu gweithredu, a'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae'n rhaid bod unigolion yn meddu arnyn nhw pan fyddan nhw'n gorffen eu hyfforddiant AMHP.

Drafftwyd y meini prawf yn unol ag Atodlen 2 i Mental Health (AMHP) (Approval) (England) Regulations 2008 sy'n cyflwyno cymhwysedd AMHP sy'n ofynnol o dan y gyfraith.

Cawsant eu datblygu gyda mewnbwn rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys

Meini prawf cymeradwyo ar gyfer rhaglenni proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy (AMHP)

Approval criteria for approved mental health professional (AMHP) programmes

darparwyr addysg, gweithwyr proffesiynol unigol, cyflogwyr a defnyddwyr gwasanaeth. Gwnaethom hefyd ymgynghori'n gyhoeddus ar y meini prawf ac rydym yn ddiolchgar i'r sawl a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

Rwy'n hyderus y bydd y meini prawf yn chwarae rôl o ran cynnal addysg ac ymarfer AMHP diogel ac effeithiol.

Mae'r meini prawf yn effeithiol o 1 Medi 2013.

A handwritten signature in black ink that reads "Anna van der Gaag". The signature is written in a cursive, flowing style.

Anna van der Gaag
Cadeirydd

Foreword

I am pleased to present the Health and Care Professions Council's (HCPC) approval criteria for approved mental health professional (AMHP) programmes.

The HCPC has powers to approve and monitor programmes for AMHPs in England and to do so we have produced criteria that set out our expectations of education providers and individuals completing these programmes.

The criteria for approving AMHP programmes are designed to equip individuals with the threshold skills necessary to engage in safe and effective AMHP practice. They set out the processes and procedures that education providers delivering AMHP training must have in place, and the knowledge, understanding and skills that an individual must have when they complete their AMHP training.

The criteria were drafted in accordance with Schedule 2 to the Mental Health (AMHP) (Approval) (England) Regulations 2008, which sets out the competencies of an AMHP required by law.

They were developed with the input of key stakeholders, including education providers, individual professionals, employers and


[Meini prawf cymeradwyo ar gyfer rhaglenni proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy \(AMHP\)](#)

[Approval criteria for approved mental health professional \(AMHP\) programmes](#)

service users. We also publically consulted on the criteria and are grateful to those who replied to the consultation.

I am confident that the criteria will play a key role in supporting safe and effective AMHP education and practice.

The criteria are effective from 1 September 2013.

A handwritten signature in black ink that reads "Anna van der Gaag". The signature is written in a cursive style with a long horizontal stroke at the end of the name.

Anna van der Gaag
Chair

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r meini prawf cymeradwyo rydym wedi'u datblygu ar gyfer rhaglenni proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy (AMHP).

Pwrpas y meini prawf hynny yw rhestru'r lefel o hyfforddiant sydd ei angen i ddarparu ymarfer AMHP diogel ac effeithiol. Nhw yw'r meini prawf trothwy rydym yn ystyried eu bod yn angenrheidiol i amddiffyn aelodau'r cyhoedd. I wneud hyn maen nhw'n:

- rhestru'r prosesau a gweithdrefnau y mae'n rhaid i ddarparwyr addysg sy'n cyflawni hyfforddiant AMHP eu gweithredu er mwyn cyflawni hyfforddiant yn ddiogel ac yn effeithiol;
- rhestru'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae'n rhaid i unigolyn feddu arnynt pan fydd yn gorffen ei hyfforddiant AMHP.

Introduction

This document sets out the approval criteria we have developed for approved mental health professional (AMHP) programmes.

The purpose of these criteria is to set out the level of training necessary to provide safe and effective AMHP practice. They are the threshold criteria we consider necessary to protect members of the public. To do so they:

- set out the processes and procedures that an

Meini prawf cymeradwyo ar gyfer rhaglenni proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy (AMHP)

Approval criteria for approved mental health professional (AMHP) programmes

education provider delivering AMHP training must have in place in order to deliver training safely and effectively; and

- set out the knowledge, understanding and skills that an individual must have when they complete their AMHP training.

Ynglŷn ag ymarfer AMHP

Mae AMHPs yn ymarfer swyddogaethau o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r swyddogaethau hyn yn ymwneud â phenderfyniadau a wneir ynglŷn ag unigolion ag anhwylderau meddyliol, gan gynnwys y penderfyniad i orfodi rhywun i fynd i'r ysbyty.

Gall gweithwyr cymdeithasol, nyrsys iechyd meddwl ac anabledau dysgu, therapyddion galwedigaethol ac ymarferwyr seiciatryddion, sydd wedi'u cofrestru gyda'u rheolyddion, hyfforddi i fynd yn AMHPs.

Mae gorffen rhaglen wedi'i chymeradwyo'n llwyddiannus ond yn gwneud unigolyn yn gymwys i gael ei gymeradwyo i weithredu fel AMHP. Dim ond y sawl sydd wedi gorffen hyfforddiant wedi'i gymeradwyo ac sydd wedi'u cymeradwyo i weithredu fel AMHP gan Awdurdod Gwasanaethau Cymdeithasol Lleol yn Lloegr sy'n cael perfformio swyddogaethau AMHP.

About AMHP practice

AMHPs exercise functions under the Mental Health Act 1983. Those functions relate to

decisions made about individuals with mental disorders, including the decision to apply for compulsory admission to hospital.

Social workers, mental health and learning disabilities nurses, occupational therapists and practitioner psychologists, registered with their respective regulator, may train to become AMHPs.

Successful completion of an approved programme only makes an individual eligible to be approved to act as an AMHP. Only those who have completed approved training and have been approved to act as an AMHP by a Local Social Services Authority in England may perform the functions of an AMHP.

Ein disgwyliadau o ddarparwyr addysg

Byddwn yn cymeradwyo ac yn monitro rhaglenni addysg a hyfforddiant AMHP yn erbyn y meini prawf a gyflwynir yn y ddogfen hon. Mae ein Hadran Addysg yn gyfrifol am gynnal ymweliadau cymeradwyo i ddarparwyr addysg AMHP er mwyn sicrhau bod gan eu rhaglenni'r prosesau a gweithdrefnau a gyflwynir yn Adran 1, a'u bod yn cyflawni'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a amlinellir yn Adran 2. Os bydd rhaglen yn bodloni'r meini prawf rydym yn rhoi cymeradwyaeth ddiderfyn iddi, yn amodol ar fonitro parhaus.

Rydym wedi gosod meini prawf trothwy sy'n sicrhau canlyniadau'r addysg a hyfforddiant ac

[Meini prawf cymeradwyo ar gyfer rhaglenni proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy \(AMHP\)](#)

[Approval criteria for approved mental health professional \(AMHP\) programmes](#)

nid ydym yn rhagnodi sut y dylai darparwyr addysg fodloni'r meini prawf. Mae hyn oherwydd bod mwy nag un ffordd, fel arfer, y gellir bodloni'r meini prawf ac mae'n bosibl i'r ffordd y maent yn cael eu bodloni newid gydag amser oherwydd gwelliannau mewn technoleg neu newidiadau i ymarfer. Fodd bynnag, rydym wedi cynhyrchu dogfen mapio sy'n mapio'r meini prawf yn y ddogfen yn erbyn ein safonau presennol o ran canllawiau addysg a hyfforddiant. Mae'n rhoi mwy o wybodaeth ar sut y gellid gweithredu'r meini prawf yn ymarferol ac mae ar gael ar ein gwefan.

Rydym hefyd yn cynhyrchu dogfennau gwybodaeth atodol ar gyfer darparwyr addysg wrth baratoi ar gyfer ymweliad cymeradwyo, wrth gwblhau cyflwyniadau monitro blynyddol, neu wrth wneud newidiadau sylweddol i raglenni. Mae'r dogfennau hyn yn rhoi mwy o wybodaeth am y prosesau rydym yn eu defnyddio i asesu a monitro rhaglenni ac maen nhw hefyd ar gael ar ein gwefan.

Our expectations of education providers

We will approve and monitor AMHP education and training programmes against the criteria set out in this document. Our Education Department is responsible for conducting approval visits to AMHP education providers to ensure their programmes have the processes and procedures outlined in Section 1 in place, and are delivering the knowledge, understanding and

skills outlined in Section 2. If a programme meets the criteria we grant open-ended approval, subject to ongoing monitoring.

We have set threshold criteria which ensure the outcomes of education and training and do not dictate how education providers should meet the criteria. This is because there is normally more than one way in which the criteria can be met and the way in which they are met may change over time because of improvements in technology or changes to practice. However, we have produced a mapping document which maps the criteria in this document to our existing standards of education and training guidance. This provides more information as to how the criteria could be implemented in practice and is available on our website.

We also produce supplementary information documents for education providers when preparing for an approval visit, completing annual monitoring submissions, or making significant changes to programmes. These documents give more information about the processes we use to assess and monitor programmes and are also available on our website.

Ein disgwyliadau o AMHPs unigol

Nid yw'r meini prawf hyn yn disodli safonau eraill rydym ni neu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) yn eu gosod a bydd rhaid i AMHPs ddefnyddio'r safonau hyn a rhai eraill i gefnogi eu hymarfer ehangach. Rydym yn disgwyl i

[Meini prawf cymeradwyo ar gyfer rhaglenni proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy \(AMHP\)](#)

[Approval criteria for approved mental health professional \(AMHP\) programmes](#)

gofrestreion yr HCPC lynu wrth ein safonau hyfedredd, safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg a safonau ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r rhain i gyd ar gael ar ein gwefan. Bydd disgwyl i nyrsys lynu wrth y safonau y mae'r NMC yn eu gosod, sydd ar gael ar eu gwefan.

Gan fod rôl AMHP yn berthnasol i nifer o broffesiynau sy'n ymarfer mewn amgylcheddau gwahanol, nid ydym yn rhagnodi sut y mae'n rhaid bod unigolion sy'n gorffen rhaglenni AMHP yn gallu dangos y cymwyseddau a gyflwynir yn Adran 2 y meini prawf ar ôl hyfforddiant.

Fel gweithwyr proffesiynol ymreolaethol, bydd angen i unigolion sy'n gorffen rhaglenni AMHP cymeradwy wneud penderfyniadau gwybodus a rhesymegol ynglŷn â'u hymarfer er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf sy'n berthnasol iddynt. Mae hyn yn cynnwys gofyn am gyngor a chefnogaeth darparwyr addysg, cyflogwyr, cydweithwyr, cyrff proffesiynol, undebau ac eraill er mwyn sicrhau bod lles defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei ddiogelu bob amser. Os bydd gweithiwr proffesiynol yn sicrhau hyn, mae'n annhebygol na fydd yn bodloni ein meini prawf.

Our expectations of individual AMHPs

These criteria do not replace other standards that either we or the Nursing and Midwifery Council (NMC) set and AMHPs will need to draw on these other standards to support their

wider practice. We expect HCPC registrants to keep to our standards of proficiency, standards of conduct, performance and ethics and standards for continuing professional development, all of which are available on our website. Nurses will be expected to keep to the standards that the NMC set, which are available on their website.

Given that the AMHP role applies to a number of professions who practice in different environments, we do not stipulate how individuals completing AMHP programmes must be able to demonstrate the competencies set out in Section 2 of the criteria after training.

As autonomous professionals, individuals completing approved AMHP programmes will need to make informed and reasoned decisions about their practice to ensure that they meet the criteria that apply to them. This includes seeking advice and support from education providers, employers, colleagues, professional bodies, unions and others to ensure that the wellbeing of service users is safeguarded at all times. If a professional ensures this, it is unlikely that they will not meet our criteria.

laith

Rydym yn cydnabod y gall y defnydd o derminoleg fod yn fater sensitif, yn enwedig wrth ymwneud â materion ynghylch iechyd meddwl. Rydym wedi penderfynu ei fod yn briodol inni ddefnyddio iaith deddfwriaeth iechyd meddwl a chyfeirio at 'anhwylder meddwl' yn y meini prawf.

Mae'r meini prawf yn defnyddio ymadroddion fel 'deall' a 'bod yn gallu cymhwyso'. Mae hyn fel eu bod yn berthnasol i'r rhai sy'n cwblhau rhaglenni AMHP ac nad ydynt eto wedi dechrau ymarfer fel AMHP.

Language

We recognise that the use of terminology can be a sensitive issue, particularly around issues about mental health. We have decided that it is appropriate for us to use the language of mental health legislation and refer to 'mental disorder' in the criteria.

The criteria use phrases such as 'understand' and 'be able to apply'. This is so that they are applicable to those completing AMHP programmes that have not yet started practising as an AMHP.

Adran 1: Darparwyr addysg

Mae'r adran hon yn rhestru'r meini prawf y mae'n rhaid i ddarparwyr addysg eu defnyddio i ddylunio a chyflawni rhaglen AMHP.

Section 1: Education providers

This section sets out criteria around how an education provider must design and deliver an AMHP programme.

Derbyniadau i raglen

- A.1 Mae'n rhaid i'r weithdrefn dderbyn roi'r wybodaeth sydd ei hangen i'r ymgeisydd a'r darparwr addysg er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â derbyn cynnig o le ar raglen.
- A.2 Mae'n rhaid i'r gweithdrefnau derbyn gymhwyso meini prawf dethol a mynediad, gan gynnwys safonau mynediad academaidd a phroffesiynol.
- A.3 Mae'n rhaid i'r gweithdrefnau derbyn gymhwyso meini prawf dethol a mynediad, gan gynnwys achredu dysgu (drwy brofiad) blaenorol a mecanweithiau cynnwys eraill.
- A.4 Mae'n rhaid i'r gweithdrefnau derbyn sicrhau bod gan y darparwr addysg bolisiau cydraddoldeb ac amrywiaeth

Meini prawf cymeradwyo ar gyfer rhaglenni proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy (AMHP)

Approval criteria for approved mental health professional (AMHP) programmes

mewn perthynas ag ymgeiswyr a myfyrwyr¹, ynghyd ag esboniad o sut y caiff y rhain eu gweithredu a'u monitro.

Programme admissions

- A.1 The admissions procedures must give both the applicant and the education provider the information they require to make an informed choice about whether to take up or make an offer of a place on a programme.
- A.2 The admissions procedures must apply selection and entry criteria, including appropriate academic and professional entry standards.
- A.3 The admissions procedures must apply selection and entry criteria, including accreditation of prior (experiential) learning and other inclusion mechanisms.
- A.4 The admissions procedures must ensure that the education provider has equality and diversity policies in relation to applicants and students², together with an indication of how these will be implemented and monitored.

Rheoli'r rhaglen ac adnoddau

- B.1 Mae'n rhaid bod gan y rhaglen le sicr yng

¹ Drwy gydol y ddogfen hon, ystyr 'myfyrwyr' yw gweithwyr proffesiynol wedi'u cofrestru sy'n dilyn rhaglenni AMHP.

² Throughout this document, 'students' means registered professionals completing AMHP programmes.

Meini prawf cymeradwyo ar gyfer rhaglenni proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy (AMHP)
Approval criteria for approved mental health professional (AMHP) programmes

ngynllun busnes y darparwr.

- B.2 Mae'n rhaid bod y rhaglen yn cael ei rheoli'n effeithiol.
- B.3 Mae'n rhaid bod gan y rhaglen systemau ar gyfer ei monitro a'i gwerthuso'n rheolaidd.
- B.4 Mae'n rhaid bod yna berson a enwir sydd â chyfrifoldeb proffesiynol cyffredinol am y rhaglen ac mae'n rhaid bod gan y person hwn y cymwysterau a'r profiad priodol ac, oni chytunwyd ar drefniadau eraill, mae'n rhaid ei fod ar y rhan berthnasol o gofrestr broffesiynol briodol.
- B.5 Mae'n rhaid bod digon o staff â'r cymwysterau a phrofiad priodol, a, pan fo'n ofynnol, wedi'u cofrestru er mwyn cyflawni rhaglen effeithiol.
- B.6 Mae'n rhaid i feysydd pwnc gael eu haddysgu gan staff ag arbenigedd a gwybodaeth arbenigol berthnasol.
- B.7 Mae'n rhaid bod rhaglen ar gyfer datblygu staff ar waith er mwyn sicrhau datblygiad proffesiynol ac ymchwil parhaus.
- B.8 Mae'n rhaid i'r adnoddau i gefnogi dysgu myfyrwyr ym mhob lleoliad gael eu defnyddio'n effeithiol.
- B.9 Mae'n rhaid bod yr adnoddau i gefnogi dysgu myfyrwyr ym mhob lleoliad gefnogi'n effeithiol gweithgareddau dysgu ac addysgu gofynnol y

[Meini prawf cymeradwyo ar gyfer rhaglenni proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy \(AMHP\)](#)

[Approval criteria for approved mental health professional \(AMHP\) programmes](#)

rhaglen.

- B.10 Mae'n rhaid bod yr adnoddau dysgu, gan gynnwys cyfleusterau technoleg gwybodaeth, yn briodol i'r cwricwlwm ac ar gael yn rhwydd i'r myfyrwyr a'r staff.
- B.11 Mae'n rhaid bod digon o gyfleusterau hygyrch i gefnogi lles a budd y myfyrwyr ym mhob lleoliad.
- B.12 Mae'n rhaid bod system o gefnogaeth academaidd a bugeiliol ar gyfer myfyrwyr.
- B.13 Mae'n rhaid bod system i fyfyrwyr wneud cwynion wedi'i sefydlu.
- B.14 Drwy gydol cwrs y rhaglen, mae'n rhaid bod y darparwr addysg wedi nodi lle mae presenoldeb yn orfodol ac mae'n rhaid bod monitro cysylltiedig ar waith.
- B.15 Mae'n rhaid bod defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn ymwneud â'r rhaglen.

Programme management and resources

- B.1 The programme must have a secure place in the education provider's business plan.
- B.2 The programme must be effectively managed.
- B.3 The programme must have regular monitoring and evaluation systems in place.
- B.4 There must be a named person who has overall professional responsibility for the

programme who must be appropriately qualified and experienced and, unless other arrangements are agreed, be on the relevant part of an appropriate professional register.

- B.5 There must be an adequate number of appropriately qualified, experienced and, where required, registered staff in place to deliver an effective programme.
- B.6 Subject areas must be taught by staff with relevant specialist expertise and knowledge.
- B.7 A programme for staff development must be in place to ensure continuing professional and research development.
- B.8 The resources to support student learning in all settings must be effectively used.
- B.9 The resources to support student learning in all settings must effectively support the required learning and teaching activities of the programme.
- B.10 The learning resources, including IT facilities, must be appropriate to the curriculum and must be readily available to students and staff.
- B.11 There must be adequate and accessible facilities to support the welfare and wellbeing of students in all settings.
- B.12 There must be a system of academic and pastoral student support in place.

- B.13 There must be a student complaints process in place.
- B.14 Throughout the course of the programme, the education provider must have identified where attendance is mandatory and must have associated monitoring mechanisms in place.
- B.15 Service users and carers must be involved in the programme.

Cwricwlwm

- C.1 Mae'n rhaid bod y canlyniadau dysgu'n sicrhau bod y rhai a orffennodd y rhaglen yn llwyddiannus yn bodloni'r meini prawf yn adran 2.
- C.2 Mae'n rhaid i'r rhaglen adlewyrchu athroniaeth, gwerthoedd craidd, sgiliau a sylfaen wybodaeth a nodir mewn unrhyw ganllaw cwricwlwm perthnasol
- C.3 Mae'n rhaid bod integreiddio damcaniaeth ac ymarfer yn ganolog i'r cwricwlwm.
- C.4 Mae'n rhaid i'r cwricwlwm aros yn berthnasol i ymarfer cyfredol.
- C.5 Mae'n rhaid i'r cwricwlwm sicrhau bod myfyrwyr yn deall goblygiadau safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg yr HCPC a / neu god yr NMC: Safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg ar gyfer nyrsys a bydwagedd ar eu hymarfer fel AMHP.
- C.6 Mae'n rhaid bod cyflenwi'r rhaglen yn cefnogi ac yn datblygu meddwl

ymreolaethol ac adfyfyriol.

- C.7 Mae'n rhaid i'r dull y caiff y rhaglen ei chyflenwi annog ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- C.8 Mae'n rhaid i'r ystod o ymagweddau dysgu ac addysgu a ddefnyddir fod yn briodol i gyflenwi'r cwricwlwm yn effeithiol.

Curriculum

- C.1 The learning outcomes must ensure that those who successfully complete the programme meet the criteria in section 2.
- C.2 The programme must reflect the philosophy, core values, skills and knowledge base as articulated in any relevant curriculum guidance.
- C.3 Integration of theory and practice must be central to the curriculum.
- C.4 The curriculum must remain relevant to current practice.
- C.5 The curriculum must make sure that students understand the implications of the HCPC's standards of conduct, performance and ethics and / or the NMC's code: standards of conduct, performance and ethics for nurses and midwives on their practice as an AMHP.
- C.6 The delivery of the programme must support and develop autonomous and reflective thinking.

- C.7 The delivery of the programme must encourage evidence-based practice.
- C.8 The range of learning and teaching approaches used must be appropriate to the effective delivery of the curriculum.

Lleoliadau ymarfer

- D.1 Mae'n rhaid i lleoliadau ymarfer fod yn rhan annatod o'r rhaglen.
- D.2 Mae'n rhaid bod nifer, hyd ac ystod y lleoliadau ymarfer yn briodol ar gyfer cefnogi cyflenwi'r rhaglen a sicrhau'r canlyniadau dysgu.
- D.3 Mae'n rhaid bod y lleoliadau ymarfer yn darparu amgylchedd diogel a chefnogol.
- D.4 Mae'n rhaid i'r darparwr addysg gynnal system drwyadl ac effeithiol ar gyfer cymeradwyo a monitro pob lleoliad.
- D.5 Mae'n rhaid bod gan ddarparwyr y lleoliadau bolisiau cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn perthynas â myfyrwyr, ynghyd ag esboniad o sut y bydd y rhain yn cael eu gweithredu a'i monitro.
- D.6 Mae'n rhaid bod digon o staff â'r cymwysterau a phrofiad priodol, a, pan fo'n ofynnol, wedi'u cofrestru ym man y lleoliad ymarfer.
- D.7 Mae'n rhaid bod gan addysgwyr lleoliad yr ymarfer wybodaeth, sgiliau a phrofiad perthnasol.

- D.8 Mae'n rhaid i addysgwyr lleoliad ymarfer wneud hyfforddiant priodol ar gyfer addysgwyr lleoliad ymarfer.
- D.9 Mae'n rhaid i addysgwyr lleoliad ymarfer fod wedi'u cofrestru'n briodol, oni bai fod trefniadau eraill yn cael eu cytuno.
- D.10 Mae'n rhaid bod gweithredu rheolaidd ac effeithiol rhwng y darparwr addysg a'r darparwr lleoliad ymarfer.
- D.11 Mae'n rhaid bod myfyrwyr, darparwyr lleoliad ymarfer ac addysgwyr y lleoliad yn hollol barod ar gyfer y lleoliad, gan gynnwys gwybodaeth am ddealltwriaeth o:
- y canlyniadau dysgu i'w cyflawni;
 - amser a hyd unrhyw ymarfer lleoliad a chofnodion cysylltiedig sydd i'w cadw;
 - disgwyliadau o ymddygiad proffesiynol;
 - y gweithdrefnau asesu gan gynnwys goblygiadau methu cynyddu, ac unrhyw gamau i'w cymryd o'r herwydd;
 - cyfathrebu a llinellau cyfrifoldeb.
- D.12 Mae'n rhaid bod dysgu, addysgu a goruchwyllo'n annog ymarfer diogel ac effeithiol, dysgu annibynnol ac ymddygiad proffesiynol.
- D.13 Mae'n rhaid bod ystod o ddulliau dysgu ac addysgu sy'n parchu hawliau ac anghenion defnyddwyr gwasanaeth a chydweithwyr ar

[Meini prawf cymeradwyo ar gyfer rhaglenni proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy \(AMHP\)](#)

[Approval criteria for approved mental health professional \(AMHP\) programmes](#)

waith drwy gydol lleoliadau'r ymarfer.

Practice placements

- D.1 Practice placements must be integral to the programme.
- D.2 The number, duration and range of practice placements must be appropriate to support the delivery of the programme and the achievement of the learning outcomes.
- D.3 The practice placement settings must provide a safe and supportive environment.
- D.4 The education provider must maintain a thorough and effective system for approving and monitoring all placements.
- D.5 The placement providers must have equality and diversity policies in relation to students, together with an indication of how these will be implemented and monitored.
- D.6 There must be an adequate number of appropriately qualified, experienced and, where required, registered staff at the practice placement setting.
- D.7 Practice placement educators must have relevant knowledge, skills and experience.
- D.8 Practice placement educators must undertake appropriate practice placement educator training.
- D.9 Practice placement educators must be appropriately registered, unless other arrangements are agreed.

- D.10 There must be regular and effective collaboration between the education provider and the practice placement provider.
- D.11 Students, practice placement providers and practice placement educators must be fully prepared for placement which will include information about an understanding of:
- the learning outcomes to be achieved;
 - the timings and the duration of any placement experience and associated records to be maintained;
 - expectations of professional conduct;
 - the assessment procedures including the implications of, and any action to be taken in the case of, failure to progress; and
 - communication and lines of responsibility.
- D.12 Learning, teaching and supervision must encourage safe and effective practice, independent learning and professional conduct.
- D.13 A range of learning and teaching methods that respect the rights and needs of service users and colleagues must be in place throughout practice placements.

Asesiad

- E.1 Mae'n rhaid bod strategaeth a dyluniad yr asesiad yn sicrhau bod y myfyriwr sy'n gorffen y rhaglen yn llwyddiannus wedi bodloni'r cymwyseddau a restrir yn adran 2 y meini prawf.
- E.2 Mae'n rhaid i bob asesiad ddarparu proses gadarn ac effeithiol y gellir ei defnyddio i fesur cydymffurfio â fframweithiau cyfeirio allanol.
- E.3 Mae'n rhaid i agweddau proffesiynol ar ymarfer fod yn rhan annatod o'r gweithdrefnau asesu yn y lleoliad addysg a'r man lleoliad ymarferol.
- E.4 Mae'n rhaid defnyddio dulliau asesu sy'n mesur canlyniadau dysgu.
- E.5 Mae'n rhaid i fesur perfformiad myfyrwyr fod yn ddiuedd ac yn sicrhau ymarfer diogel ac effeithiol fel AMHP.
- E.6 Mae'n rhaid bod dulliau monitro a gwerthuso effeithiol wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau safonau priodol yn yr asesiad.
- E.7 Mae'n rhaid i reoliadau asesu nodi'n glir ofynion penodol ar gyfer cynnydd a llwyddiant myfyrwyr o fewn y rhaglen.
- E.8 Mae'n rhaid i reoliadau asesu nodi'n glir na fydd unrhyw ofynion ar gyfer dyfarniad aerogratat a wneir yn arwain at fod yn gymwys ar gyfer cael cymeradwyaeth fel AMHP.
- E.9 Mae'n rhaid i reoliadau asesu nodi'n glir

ofynion penodol ar gyfer gweithdrefn ar gyfer hawl myfyrwyr i apelio.

- E.10 Mae'n rhaid i reoliadau asesu nodi'n glir ofynion ar gyfer penodi o leiaf un arholwr allanol y mae'n rhaid ei fod â'r profiad a chymwysterau priodol ac, oni bai y cytunir ar drefniadau gwahanol, mae'n rhaid ei fod ar ran berthnasol cofrestr broffesiynol briodol.

Assessment

- E.1 The assessment strategy and design must ensure that the student who successfully completes the programme has met the competencies set out in section 2 of the criteria.
- E.2 All assessments must provide a rigorous and effective process by which compliance with external-reference frameworks can be measured.
- E.3 Professional aspects of practice must be integral to the assessment procedures in both the education setting and practice placement setting.
- E.4 Assessment methods must be employed that measure the learning outcomes.
- E.5 The measurement of student performance must be objective and ensure safe and effective practice as an AMHP.
- E.6 There must be effective monitoring and evaluation mechanisms in place to ensure

Meini prawf cymeradwyo ar gyfer rhaglenni proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy (AMHP)

Approval criteria for approved mental health professional (AMHP) programmes

- appropriate standards in the assessment.
- E.7 Assessment regulations must clearly specify requirements for student progression and achievement within the programme.
 - E.8 Assessment regulations must clearly specify that any requirements for an aegrotat award which may be made will not lead to eligibility to be approved as an AMHP.
 - E.9 Assessment regulations must clearly specify requirements for a procedure for the right of appeal for students.
 - E.10 Assessment regulations must clearly specify requirements for the appointment of at least one external examiner who must be appropriately experienced and qualified and, unless other arrangements are agreed, be from the relevant part of an appropriate professional register.

Adran 2: Gweithwyr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy

Mae'n rhaid i ddarparwyr addysg sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n gorffen eu hyfforddiant AMHP yn gallu bodloni'r meini prawf a nodir yn yr adran hon. Rydym wedi seilio'r meini prawf hyn ar Schedule 2 to the Mental Health (Approved Mental Health Professionals) (Approval) (England) Regulations 2008.

Section 2: Approved mental health professionals

Education providers must make sure that professionals who complete their AMHP training can meet the criteria set out in this section. We have based these criteria on Schedule 2 to the Mental Health (Approved Mental Health Professionals) (Approval) (England) Regulations 2008.

Gwybodaeth

- 1.1 Deall deddfwriaeth, codau ymarfer cysylltiedig â pholisi a chanllawiau cenedlaethol a lleol yn berthnasol i rôl AMHP, a bod yn gallu cymhwyso hwn yn ymarferol.
- 1.2 Deall sefyllfa gyfreithiol ac atebolrwydd AMHPs, cyflogwyr a'r awdurdod y mae'r AMHP yn

gweithredu ar ei ran mewn perthynas â Deddf Iechyd Meddwl 1983.

- 1.3 Deall ystod o fodolau o anhwylder meddyliol, a bod yn gallu eu cymhwyso yn ymarferol.
- 1.4 Deall cyfraniad ac effaith y ffactorau cymdeithasol, corfforol a datblygiadol ar iechyd meddwl, a bod yn gallu cymhwyso LAITH hyn yn ymarferol.
- 1.5 Deall y persbectif cymdeithasol ar anhwylderau meddwl ac anghenion iechyd meddwl wrth weithio gyda defnyddwyr gwasanaeth, eu perthnasau, eu gofalwyr a staff proffesiynol eraill, a bod yn gallu cymhwyso hyn yn ymarferol.
- 1.6 Deall goblygiadau anhwylderau meddwl ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, eu perthnasau, eu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill, a bod yn gallu cymhwyso hyn wrth ymarfer.
- 1.7 Deall goblygiadau ystod o driniaethau ac ymyriadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, eu perthnasau a'u gofalwyr, a bod yn gallu cymhwyso hyn wrth ymarfer.
- 1.8 Deall gweithdrefnau amddiffyn plant ac oedolion mewn perthynas ag ymarfer AMHP.
- 1.9 Deall anghenion plant a phobl ifanc a'u teuluoedd a'r effaith y mae'r anghenion hyn yn ei chael ar ymarfer AMHP.

Knowledge

- 1.1 Understand legislation, related codes of practice and national and local policy and guidance

- applicable to the role of an AMHP, and be able to apply this in practice.
- 1.2 Understand the legal position and accountability of AMHPs, employers and the authority the AMHP is acting for in relation to the Mental Health Act 1983.
 - 1.3 Understand a range of models of mental disorder, and be able to apply them in practice.
 - 1.4 Understand the contribution and impact of social, physical and development factors on mental health, and be able to apply this in practice.
 - 1.5 Understand the social perspective on mental disorders and mental health needs in working with service users, their relatives, carers and other professionals, and be able to apply this in practice.
 - 1.6 Understand the implications of mental disorders for service users, their relatives, carers and other professionals, and be able to apply this in practice.
 - 1.7 Understand the implications of a range of treatments and interventions for service users, their relatives and carers, and be able to apply this in practice.
 - 1.8 Understand child and adult protection procedures in relation to AMHP practice.
 - 1.9 Understand the needs of children and young people and their families and the impact those needs have on AMHP practice.

Ymarfer ymreolaethol

- 2.1 Bod yn gallu defnyddio annibyniaeth, awdurdod ac ymreolaeth yn briodol yn rôl yr AMHP.
- 2.2 Bod yn gallu cydnabod, asesu a rheoli'n effeithiol y risgiau sy'n gysylltiedig â rôl yr AMHP.
- 2.3 Bod yn gallu rheoli pryder, risg a gwrthdaro a deall ei effaith ar ymarfer AMHP.

Autonomous practice

- 2.1 Be able to exercise appropriate use of independence, authority and autonomy in the AMHP role.
- 2.2 Be able to recognise, assess and manage effectively the risks related to the AMHP role.
- 2.3 Be able to manage anxiety, risk and conflict and understand its impact on AMHP practice.

Gwneud penderfyniadau gwybodus

- 3.1 Bod yn gallu gwerthuso'n feirniadol bolisi lleol a chenedlaethol er mwyn arwain ymarfer AMHP.
- 3.2 Bod yn gallu defnyddio, a gwerthuso'n feirniadol ystod o ymchwil yn berthnasol i

ymarfer AMHP sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

- 3.3 Bod yn gallu casglu, dadansoddi a rhannu gwybodaeth yn briodol.

Informed decision making

- 3.1 Be able to evaluate critically local and national policy to inform AMHP practice.
- 3.2 Be able to draw on, and evaluate critically, a range of research relevant to evidence-based AMHP practice.
- 3.3 Be able to gather, analyse and share information appropriately.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

- 4.1 Bod yn gallu dangos sensitifrwydd i ffactorau fel hil, rhyw, oedran, rhywedd, anabled, diwylliant, crefydd a chredo yn ymarfer AMHP.
- 4.2 Bod yn gallu adnabod, herio a gwneud yn iawn am wahaniaethu ac anghydraddoldeb yn ymarfer AMHP.
- 4.3 Deall a pharchu rhinweddau, galluoedd a chefnidiroedd amrywiol defnyddwyr gwasanaeth.
- 4.4 Bod yn gallu hyrwyddo hawliau, urddas a hunan-benderfyniad defnyddwyr gwasanaeth yn gyson â'u hanghenion a dymuniadau eu hunain er mwyn eu galluogi i gyfrannu at y penderfyniadau a wneir sy'n effeithio ar ansawdd eu bywydau a'u rhyddid.
- 4.5 Bod yn gallu dangos sensitifrwydd i

anghenion defnyddwyr gwasanaeth am barch personol, cyfrinachedd, dewis, urddas a phreifatrwydd.

Equality and diversity

- 4.1 Be able to demonstrate sensitivity to factors such as race, gender, age, sexuality, disability, culture, religion and belief in AMHP practice.
- 4.2 Be able to identify, challenge and redress discrimination and inequality in AMHP practice.
- 4.3 Understand and respect service users' qualities, abilities and diverse backgrounds.
- 4.4 Be able to promote the rights, dignity and self-determination of service users consistent with their own needs and wishes to enable them to contribute to the decisions made affecting their quality of life and liberty.
- 4.5 Be able to demonstrate sensitivity to a service user's needs for personal respect, confidentiality, choice, dignity and privacy.

Cyfathrebu

- 5.1 Bod yn gallu cyfathrebu'n effeithiol gyda defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr wrth gyflawni rôl yr AMHP.
- 5.2 Bod yn gallu trosglwyddo cyngor, cyfarwyddiadau, gwybodaeth a barn broffesiynol, gan gynnwys darparu adroddiadau ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- 5.3 Bod yn gallu cyflwyno achos mewn gwrandawriad cyfreithiol.
- 5.4 Bod yn gallu cydbwyso a rheoli gofynion cystadleuol cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth yn effeithiol er budd y defnyddiwr gwasanaeth a'r bobl eraill sy'n ymwneud â gofal y defnyddiwr gwasanaeth.

Communication

- 5.1 Be able to communicate effectively with service users, relatives and carers when undertaking the AMHP role.
- 5.2 Be able to communicate advice, instruction, information and professional opinion, including providing verbal and written reports.
- 5.3 Be able to present a case at a legal hearing.
- 5.4 Be able to balance and manage the competing requirements of confidentiality and effective information sharing to the benefit of the service user and other persons concerned with the service user's care.

Gweithio cydweithredol

- 6.1 Bod yn gallu gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr ac eraill i werthuso canlyniadau ymyriadau a nodi unrhyw anghenion nad ydynt yn cael eu bodloni.
- 6.2 Bod yn gallu adeiladu a chynnal cydberthynasau proffesiynol gyda defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr wrth wneud rôl yr AMHP.
- 6.3 Bod yn gallu gweithio fel AMHP mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys gweithio rhwng asiantaethau a rhwng proffesiynau.
- 6.4 Deall rolau a chyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol eraill yn ymwneud â gwaith iechyd meddwl statudol.
- 6.5 Bod yn gallu defnyddio rhwydweithiau a grwpiau cymunedol i ddylanwadu ar gydweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth, asiantaethau ac eiriolwyr.

Collaborative working

- 6.1 Be able to work with service users, carers and others to evaluate the outcomes of interventions and identify any unmet needs.
- 6.2 Be able to build and sustain effective professional relationships with service users, relatives and carers when undertaking the AMHP role.
- 6.3 Be able to work as an AMHP in partnership with others, including inter-agency and inter-professional working.

- 6.4 Understand the roles and responsibilities of other professionals involved in statutory mental health work.
- 6.5 Be able to use networks and community groups to influence collaborative working with service users, agencies and advocates.

Asesiad ac ymyriad

- 7.1 Bod yn gallu gwneud penderfyniadau priodol sy'n sensitif i anghenion y defnyddiwr gwasanaeth.
- 7.2 Bod yn gallu asesu dichonolrwydd cynllunio a gweithredu opsiynau ar gyfer gofal y defnyddiwr gwasanaeth, a chyfrannu'n effeithiol ato.
- 7.3 Bod yn gallu cynllunio, negodi a rheoli derbyn rhywun yn orfodol i ysbyty neu drefniadau ar gyfer triniaeth dan oruchwyliaeth yn y gymuned.
- 7.4 Bod yn gallu rheoli a chydlynu'r prosesau cyfreithiol ac ymarferol perthnasol yn effeithiol, gan gynnwys cyfranogiad gweithwyr proffesiynol eraill, yn ogystal â defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr.
- 7.5 Bod yn gallu llenwi dogfennau statudol, gan gynnwys cais ar gyfer derbyn i ysbyty, a chofnodion ysgrifenedig yn unol â'r ddeddfwriaeth, protocolau a chanllawiau perthnasol.

Assessment and intervention

- 7.1 Be able to make appropriate decisions that are sensitive to the needs of the service user.
- 7.2 Be able to assess the feasibility of, and contribute effectively to, planning and implementing options for care of the service user.
- 7.3 Be able to plan, negotiate and manage compulsory admission to hospital or arrangements for supervised community treatment.
- 7.4 Be able to manage and co-ordinate effectively the relevant legal and practical processes, including the involvement of other professionals, as well as service users, relatives and carers.
- 7.5 Be able to complete statutory documentation, including an application for admission, and written records in accordance with applicable legislation, protocols and guidelines.

Nodiadau

Notes

Nodiadau

Notes

Nodiadau

Notes

184 Kennington Park
Road
Llundain SE11 4BU

ffôn +44 (0)845 300 6184
ffacs +44 (0)20 7820 9684
www.hcpc-uk.org

Park House tel +44 (0)845 300 6184
184 Kennington fax +44 (0)20 7820 9684
Park Road London www.hcpc-uk.org
SE11 4BU

**Mae'r ddogfen hon ar gael mewn
fformatau eraill ar gais.
Ffoniwch +44 (0)20 7840 9806
neu anfonwch e-bost at publications@hcpc-uk.org**

**This document is available in
alternative formats on request.
Call +44 (0)20 7840 9806
or email publications@hcpc-uk.org**

© Health and Care Professions Council 2013
Cod cyhoeddi 20130901POLPUB (argraffwyd Awst 2013)
Cynhyrchwyd y cyhoeddiad hwn drwy ddefnyddio coed o fforestydd cynaliadwy a ffibr wedi'i ailgylchu

© Health and Care Professions Council 2013
Publication code: 20130901POLPUB (printed August 2013)
This publication is produced using trees from sustainable forests and recycled fibre.



MIX
Paper from
responsible sources
FSC® C105395